# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Rob Stewart | Adran Etholiadol: | Treforys |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid a Strategaeth |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi bod yn brysur yn fy ward dros y flwyddyn ddiwethaf. Gan weithio'n agos gyda'm cydweithwyr ward, rwyf wedi cynnal cymorthfeydd cyngor, mynd i gyfarfodydd cymunedol a helpu i ddatrys nifer o faterion allweddol lleol.

Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â mater ‘anterthau cyfreithlon’ lle cefnogasom weithredu cryf gan yr heddlu a'r safonau masnach ac atal cyflenwi anterthau cyfreithlon yn Stryd Woodfield.

Gyda'm cydweithwyr ward, fe wnaethom ariannu a threfnu gorymdaith a dathliadau goleuadau'r Nadolig, a hefyd ariannu blodau gwyllt ac arddangosfeydd blodau trwy gydol y ward yn ystod misoedd yr haf.

Gweithiasom i roi cynlluniau parcio a mesurau gostegu traffig ar waith ar nifer o ffyrdd, newid colofnau goleuadau ac ariannu prynu a gosod nifer o gysgodfannau bws mewn safleoedd bws ar draws y ward.

Rwyf hefyd wedi siarad am nifer o geisiadau cynllunio lleol yn ystod y flwyddyn, yn cyfleu ac yn cynrychioli barn preswylwyr am faterion cynllunio.

Rwyf hefyd wedi parhau i gefnogi grwpiau a sefydliadau lleol ac wedi mynd i nifer o ddigwyddiadau codi arian a chyngherddau yn ystod y flwyddyn.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 12 | / | 14 | 86 | % |
| Cabinet | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 18 | / | 18 | 100 | % |
| Grŵp Cynghori Datblygu | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 1 | / | 7 | 14 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 0 | / | 4 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **53** | **/** | **68** | 78 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Rwyf wedi parhau i wthio'r awdurdod ymlaen fel Arweinydd, yn hyrwyddo'r gwaith ailddatblygu ac adfywio mwyaf uchelgeisiol mae Abertawe wedi'i ddilyn erioed. Rwyf wedi parhau i weithio gydag arweinwyr eraill a Syr Terry Matthews i greu cynnig y Fargen Ddinesig y rhoddwyd cymeradwyaeth mewn egwyddor iddo gan y canghellor yn y gyllideb eleni. Rwyf wedi gweithio gyda chydweithwyr y Cabinet i greu'r amodau lle mae ein hysgolion wedi cyflawni'r canlyniadau addysg gorau erioed yn Abertawe a lle mae ein gwasanaethau cymdeithasol yn perfformio'n gryf iawn.

Rwyf wedi goruchwylio camau gweithredu brys i ddatrys materion gyda thraffig ar Ffordd y Brenin. Rwyf wedi gwneud newidiadau sylweddol i bolisïau i sicrhau y rhoddir mwy o arian mewn rheolaeth gymunedol i'w wario ar flaenoriaethau lleol.

Rwyf wedi gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd cydweithredol newydd â'n dwy brifysgol a chyflogwyr pwysig eraill i greu ymagwedd ‘Tîm Abertawe’ at wneud busnes. Wrth wneud hynny, rwyf wedi amlygu ein bod yn ddinas sydd ar agor am fusnes, yn croesawu buddsoddiad newydd i'r ddinas ac yn creu cyfleoedd gwaith newydd yn y ddinas.

Roedd 2015/16 yn flwyddyn wych i Abertawe ond, eleni, bydd pobl wir yn gweld newid ffisegol yn y ddinas wrth i'n datblygiadau newydd godi o'r tir.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Cynnau goleuadau Nadolig Treforys 2015

Gweithiodd cynghorwyr Treforys gyda'i gilydd i drefnu a chyflwyno'r ail ddigwyddiad Gorymdaith a Chynnau Goleuadau'r Nadolig yn Stryd Woodfield, Treforys. Er bod y tywydd ychydig yn wlyb, roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus eto.

Ni allem fod wedi'i wneud yn llwyddiant heb gefnogaeth Tabernacl Treforys, Cymunedau'n Gyntaf, ein corau campus, ysgolion lleol, a chefnogaeth wych gan yr heddlu, y gwasanaeth tân a swyddogion y cyngor.

Arddangosfeydd Blodau

Gan weithio'n agos gyda'm cydweithwyr ward, trefnais arddangosfeydd blodau gwyllt ac arddangosfeydd blodeuol eraill trwy gydol y ward. Rydym yn bwriadu cynyddu maint a graddfa'r cynllun flwyddyn ar ôl blwyddyn gydag arddangosfeydd ychwanegol wedi'u trefnu ar gyfer Tabernacl Treforys, Eglwys Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Ynystawe yn ogystal â lleoliadau eraill eleni.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

*Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth neu'r sgiliau arbennig rydych yn eu cyfrannu i'ch rôl fel cynghorydd. Er enghraifft, efallai eich bod yn gynlluniwr arbenigol neu efallai bod gennych brofiad penodol o un agwedd ar weithgareddau'r cyngor. Nodwch a oes unrhyw beth arbennig rydych yn ei gyfrannu i'r rôl neu a oes unrhyw hyfforddiant arbennig rydych wedi'i gael sy'n eich helpu yn eich rôl.*

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cynhaliais gymorthfeydd cynghorwyr gyda'm cydweithwyr ward trwy gydol y flwyddyn yn Llyfrgell Treforys. Euthum i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a chyfarfodydd Cymdeithas Preswylwyr Stryd y Farchnad. Rwyf wedi ymdrin â nifer o faterion ward ar ran preswylwyr Treforys, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, sbwriel, tyllau yn y ffordd, parcio, tai ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Parheais fel llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Glyncollen.

Rwyf wedi mynd i nifer o ddigwyddiadau dinesig, elusennol, chwaraeon a diwylliannol fel Arweinydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bu'n bleser gennyf gefnogi nifer o ddigwyddiadau ar draws y ddinas.

Fel Arweinydd, rwy'n arwain y Cabinet ac y cadeirio cyfarfodydd amrywiol. Roeddwn/Rwyf yn aelod o Fwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Roeddwn/Rwyf yn gyfarwyddwr y Rhanbarth Gwella Busnes a Chwmni Rheoli Stadiwm Abertawe. Roeddwn/Rwyf yn gyfarwyddwr Dyfodol Bae Abertawe. Hefyd, cadeiriais y Grŵp Cynghori Datblygu a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. Arweinydd y Grŵp Llafur ar y cyngor.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £53,000 - Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid a Strategaeth

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 24.05.2016 |